*This document is available in English* **Eitem Agenda 20**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **28 Ebrill 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Anthony Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Sandra Williams, Pennaeth Cynllunio Corfforaeth Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol – Adroddiad Blynyddol** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Gofyn am gymeradwyaeth i gyflwyno Adroddiad Blynyddol cyntaf y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol er mwyn craffu arno, a chyhoeddi'r adroddiad ar wefan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 ("y Ddeddf") yn cyflawni ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu sy'n gosod partneriaeth gymdeithasol ar sail statudol yng Nghymru.

3 Ar 1 Ebrill 2024 daeth y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol newydd ("y Ddyletswydd") ar gyrff cyhoeddus i rym yng Nghymru.

4 Mae'r Ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod lunio adroddiad blynyddol i ddangos sut maent wedi cydymffurfio â'r Ddyletswydd a grëwyd gan y Ddeddf.

5 Mae'r Ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod geisio consensws neu gyfaddawdu gyda'u hundebau llafur cydnabyddedig pan fyddant yn: i) gosod eu hamcanion llesiant; ii) gwneud penderfyniadau o natur strategol ynghylch y camau rhesymol y maent yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny.

6 Mae'r Ddyletswydd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i undebau llafur cydnabyddedig yr Awdurdod gytuno ar yr adroddiad blynyddol, neu dylai'r adroddiad gynnwys datganiad yn egluro pam na chytunwyd arno.

7 Mae holl ofynion y Ddeddf wedi'u cyflawni trwy'r Cydbwyllgor Ymgynghori a Negodi, gan gynnwys cytuno ar yr adroddiad blynyddol ei hun.

## ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

8 Cyflwynwyd yr Adroddiad i'r Panel Gweithredol ar 17 Mawrth 2025. Ni wnaed unrhyw arsylwadau.

## ARGYMHELLIAD

9 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

**i) Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol i'w gyflwyno i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol er mwyn craffu arno a'i gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.**

## CEFNDIR

10 Mae'r gofyniad hwn yn gysylltiedig â gosod amcanion llesiant, y mae'r Awdurdod eisoes yn ymgynghori â'r cyhoedd ac aelodau o staff arnynt yn rhinwedd y gofyniad i ymgynghori'n gyhoeddus ar amcanion gwella, fel sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

## GWYBODAETH

11 Dyma'r flwyddyn gyntaf i Adroddiad y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol gael ei baratoi. Nid yw'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol wedi rhoi templed ar gyfer yr adroddiad.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn ymwneud ag ymgynghori â a chynnwys undebau llafur wrth osod amcanion llesiant. Yn ogystal, mae'r Awdurdod wedi ymgynghori â'r cyhoedd a'r staff ar ei amcanion arfaethedig ar gyfer 2025-26. |
| Cyllideb | Dim goblygiadau |
| Cyfreithiol | Bydd cyhoeddi Adroddiad y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol. |
| Staffio | Dim goblygiadau |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/ Y Gymraeg | Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar wahân wedi'i ddatblygu gan y Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant mewn perthynas ag amcanion Gwella a Llesiant yr Awdurdod. |
| Risgiau | Dim goblygiadau |